CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
8 Gorffennaf 2020
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts (o eitem 8.1 ymlaen), P Roberts (o eitem 8.1 ymlaen), S Parry, E Huws, E Law-Shui Nicholson, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng K Humphreys, G Parry, R G Parry, S Williams, J Earnshaw, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng E Huws (eitemau 1-7) a'r Cadeirydd Cyng I Roberts (eitemau 8-10).
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 17.06.20 - Cyng E Huws yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Maes chwarae CCTV – Cytunwyd I cario ymlaen oherwydd bod Cyng K Humphreys ddim yn bresennol
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Nid oedd y Cadeirydd yn bresennol am eitem 5
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Dim
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Comisiwn Ffiniau – gwybodaeth yn unig
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Gwair y fynwent - Codwyd pryderon ynghylch glaswellt yn cael ei bentyrru yn y fynwent yn dilyn toriadau. Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r contractwr a nododd fod hyn fel arfer yn cael ei glirio pan fydd y rhan o'r fynwent sydd ddim yn cael ei defnyddio yn cael ei thorri yn yr hydref
8.2	"Hydrant" wrth ymyl mynedfa yr Eglwys yn rhydd a wedi disgwyn – bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
8.3	Adolygu y Rheolau - Adolygwyd y rheolau mewnol, cyllid, sefydlog a risg gyda dim newidiadau
8.4	Derbyn y cyfrifon ac adroddiad yr archwiliwr mewnol - Derbyniwyd y cyfrifon blynyddol ar gyfer 2019/20 ynghyd ag adroddiad a sylwadau'r archwilydd mewnol. Cytunwyd bod y cyfrifon yn barod i'w hanfon ymlaen at yr archwilydd allanol
	Llofnod…….Cadeirydd 09.09.20

8.5	Costau aelodau - Mae'r Clerc wedi cysylltu â phob aelod trwy e-bost i ofyn a ydyn nhw'n dymuno hawlio treuliau / costau am y flwyddyn 2020/21
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Rhent y maes chwarae £80.24
9.2	Antur Waunfawr ail-gylchu papur £12.00
9.3	Gosod diffibrilydd yn yr Iorwerth £218.90
9.4	Derbyn y cyfrifon – gweler 8.4
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Cynrychiolwyr: Unllais Cymru, Bwrdd Llywodraethol Ysgol Bryngwran, y maes chwarae, y fynwent, iechyd a diogelwch
10.2	Llwybrau cyhoeddus
10.3	Aelodau i baratoi cyflwyniadau, pam eu bod wedi dewis bod yn gynghorydd cymunedol a pha newidiadau yr hoffent eu gweld yn y gymuned (cynigiwyd gan y Cynghorydd E Law-Shui Nicholson)
	Llofnod…….Cadeirydd 09.09.20